

Croeso i'n cylchlythyr sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

## CYLLID I FYND I'R AFAEL Â HERIAU CYSYLLTEDD SYMUDOL

Gall Gogledd Cymru dderbyn cysylltedd symudol cryfach ar draws lleoliadau allweddol, gyda buddsoddiad gwerth £6m gan Gynllun Twf y rhanbarth.

Mae'r prosiect 4G+, rhan o'r Rhaglen Cysylltedd Digidol sy'n cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru, yn gwella darpariaeth a pherfformiad rhwydweithiau 4G. Bydd hefyd yn cefnogi 5G - gan gynyddu budd economaidd ar gyfer y rhanbarth.

Dros bum mlynedd, bydd y prosiect yn hyrwyddo'r defnydd o isadeiledd sector cyhoeddus gan weithredwyr rhwydwaith fel eu bod yn gallu ymestyn eu cyrhaeddiad. Yn ogystal â hyn bydd y prosiect yn darparu cyllid grant i gefnogi gwelliannau i seilwaith digidol ac yn ehangu'r ymgysylltiad gyda'r diwydiant telathrebu.

Mae gwasanaeth 4G ar gael ar gyfer tua 79% o Ogledd Cymru gan bob un o'r pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol, o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 88%. Gyda tharged hyd yn oed yn uwch gan lywodraeth y DU o 95%, mae buddsoddiad y Cynllun Twf wedi cael ei groesawu.




Darganfyddwch fwy

## CYNNYDD CEB+

Mae'r gwaith o greu labordy newydd a gwella cyfleusterau Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol+ (CEB+) ym Mhrifysgol Bangor, yn digwydd yn gyflym. Mae hyn wedi bod yn bosibl gyda buddsoddiad o Gynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd y datblygu a'r uwchraddio yn galluogi ymchwil i ensymau unigryw a'u defnydd posibl fel cynhyrchion a phrosesau sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd, ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth newydd yn y rhanbarth.






## CYDNERTH - Y LLANW'N TROI

Mae Cydnerth, prosiect arall Cynllun Twf Gogledd Cymru sydd ar fin dechrau, wedi derbyn sylw yn ddiweddar yn ystod areithiau gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng nghynhadledd Ynni Morol Cymru (MEW).

Fel rhan o brosiect ynni carbon isel sylweddol, bydd Cydnerth yn sicrhau dyfodol cynllun ynni llanw Morlais sy'n cael ei redeg gan Menter Môn. Bydd y buddsoddiad hwn o £8.9 miliwn drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraethau Cymru a'r DU, yn golygu gall capasiti'r grid gynyddu o 18 megawat i 240 megawat dros amser. Bydd hyn hefyd yn creu hyd at 230 o swyddi newydd a chyfleoedd cadwyn gyflenwi - gan sicrhau fod Gogledd Cymru yn chwarae rhan flaenllaw yn nyfodol ynni llanw ac wrth gynhyrchu trydan glân.

Mae Morlais wedi'i leoli ger arfordir gogledd-orllewinol Ynys Cybi, Ynys Môn a bydd yn cynhyrchu trydan gan ddefnyddio ynni o rai o adnoddau llanw cryfaf y DU.






Darganfyddwch Fwy




## DIOGELU TWRISTIAETH A LLETYGARWCH I'R DYFODOL

Mae Uchelgais Gogledd Cymru a Grŵp Llandrillo Menai wedi arwyddo cytundeb cyllido gwerth £4.43m a fydd yn datgloi buddsoddiad o £19m mewn cyfleusterau hyfforddi a throsglwyddo gwybodaeth o'r radd flaenaf ar draws pum lleoliad yng Ngogledd Cymru.

Mae Rhwydwaith Talent Twristiaeth - yn brosiect Cynllun Twf Gogledd Cymru, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai mewn cydweithrediad â busnesau Lloeren. Mae'r rhain yn cynnwys Portmeirion a Zip World, gyda dau Lloeren ychwanegol i'w penodi yn ddiweddarach eleni. Mae'r cydweithio hefyd yn cynnwys partneriaethau strategol gyda Snowdonia Hospitality & Leisure a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gyda'i gilydd byddant yn galluogi rhwydwaith o ddatblygiadau arloesol i ddod yn sail ar gyfer darparu prentisiaethau a chymorth sgiliau arbenigol arall.

Bydd hyn ochr yn ochr â rhyngweithio â busnesau micro, bach a canolig a chynllun ymgysylltu cynhwysfawr gydag ysgolion ledled y rhanbarth.

Darllenwch Fwy







## EEOC YN BAROD AR GYFER MIS MEDI

Mae'r lluniau o'n prosiect adeiladu Cynllun Twf Gogledd Cymru cyntaf i gael ei gyflawni yn adlewyrchu yr effaith drawsnewidiol y bydd yr adeilad yn ei gael. Mae'r Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn ddatblygiad arloesol fydd yn dod yn ganolfan arbenigol ar gyfer ymchwil a datblygu ac yn hwb ar gyfer ymgysylltu â diwydiant. Wrth i'r gwaith adeiladu ddod i ben, mae'r adeilad ar y trywydd iawn i agor ar gyfer ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf ym mis Medi.

## EWCH I'N GWEFAN

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn Uchelgais Gogledd Cymru, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i gyflwyno Cynllun Twf ar gyfer y rhanbarth - trwy ddatblygu a chyflawni prosiectau sy'n hybu ein economi ac yn creu swyddi.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
www.uchelgaisgogledd.cymru

Wrth i'r gwaith barhau, rydym hefyd wedi cymryd mwy o gyfrifoldebau fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd - i gyflwyno cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio, yn ogystal ag ymgymryd â rôl ehangach wrth wella a hyrwyddo economi'r rhanbarth.

I osod allan ehangder ein rôl, rydym wedi diweddaru ein gwefan i esbonio ychydig mwy amdanom ni a'r gwaith rydym yn ei gyflawni ar gyfer Gogledd Cymru.

Cymerwch gipolwg

## DIOLCH AM GYMRYD RHAN

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhannu eu barn gyda ni ar Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (drafft). Mae eich adborth gwerthfawr yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ofalus. Er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, mae hi dal yn bosib i chi weld dogfennau allweddol a dysgu am y camau nesaf ar ein gwefan.

Darganfyddwch fwy

## PORTAL SGILIAU GOGLEDD CYMRU

Ydych chi wedi edrych ar Portal Sgiliau Gogledd Cymru eto?

Roedd ein Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi lansio y platfform eleni er mwyn gweithredu fel 'porth i gyfleoedd yng Ngogledd Cymru' - i rannu swyddi gwag, hyfforddiant, llwybrau gyrfa a chyfleoedd twf busnes i bobl a chyflogwyr y rhanbarth.




Darganfyddwch fwy

## SBARDUNO ARLOESI

Mae naw prosiect arloesol wedi'u cyhoeddi fel rhai llwyddiannus wrth sicrhau cyfran o £400,000 o gyllid drwy gystadleuaeth Innovate UK - Arloeswyr Newydd ym maes ariannu technoleg amaeth a thechnoleg bwyd.

Wedi'u lleoli ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru, bydd y prosiectau hyn yn sbarduno arloesedd, gwella cynaliadwyedd, a chryfhau safle'r rhanbarth fel arweinydd yn y sector technoleg amaeth a'r sector technoleg bwyd. Maen nhw'n annog busnesau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru i ymuno yn y clwstwr Technoleg Amaeth a Thechnoleg Bwyd er mwyn cael gafael ar adnoddau, arbenigedd a chyfleoedd cyllido yn y dyfodol.

Darganfyddwch fwy

## CASGLU SBWRIEL

Yn Uchelgais Gogledd Cymru mae gennym ymrwymiad cryf i gyflawni gwerth cymdeithasol, nid yn unig trwy ein holl raglenni a'n prosiectau, ond yn ein bywydau o ddydd i ddydd fel tîm o staff ymroddedig. Nid oeddem yn brin o wirfoddolwyr i gasglu sbwriel yn ddiweddar ger ein swyddfa yng Nghyffordd Llandudno!





Os hoffech dderbyn mwy o wybodeath am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru neu ewch i uchelgaisgogledd.cymru